Mae Cerdd Gwent yn darparu ystod lawn o brofiadau, hyfforddiant a gwasanaethau cerddoriaeth a all ddiwallu anghenion a chyflawni dyheadau pob disgybl, sefydliad addysgol a chymuned leol ym Mlaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen ac ardaloedd cyfagos.

Gallwn ddarparu profiadau cyntaf o hyfforddiant a pherfformiadau rhyngweithiol o ansawdd uchel sy'n caniatáu i'ch dysgwyr archwilio, creu a pherfformio. Gellir darparu hyn trwy gyfrwng ystod lawn o sesiynau offerynnol, lleisiol neu dechnoleg cerddoriaeth. Byddwn yn rhoi cyfle i'ch dysgwr archwilio, ehangu a datblygu wrth eu pwysau, gan eu galluogi i symud ymlaen o brofiad cerddorol ar gyfer dosbarth cyfan i addysg gerddorol unigol, wedi'i theilwra yn unol â'u hanghenion.

Bydd y llyfryn hwn yn cynnig arweiniad i chi ynghylch ein profiad Cerdd Gwent.

Staff

Mae Cerdd Gwent yn credu fod ansawdd ein staff sy'n gweithio mewn ysgolion yn hollbwysig, a gallwn gadarnhau y byddwn yn cynnal y gwiriadau canlynol cyn cyflogi ein holl athrawon:

- Gwiriad Manylach gan y GDG
- Gwirio'r rhestr o enwau'r sawl sydd wedi'u gwahardd rhag gweithio gyda phlant
- Gwirio hawl i weithio yn y DU
- Gwiriad adnabod
- Cadarnhau cymwysterau
- Geirdaon

Mae gennym broses i arsylwi tiwtoriaid yn rheolaidd i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth a gynigir.

Prosiectau

Gallwn ddarparu profiad cerddorol i'ch ysgol/clwstwr fel y gallant roi cynnig ar yr offerynnau canlynol:

Offerynnau taro yn cynnwys Samba, Taiko, Djembe, Offerynnau Taro Tiwniedig
Y Llinynnau
Chwythbrennau yn cynnwys Recorderau, Toots (Ffliwtiau Bychan), Doods (Clarinetau Bychan), Clarinetau, jSax

Prosiectau Lleisiol yn cynnwys Theatr Gerddorol
Iwcalilis
Cerddoriaeth Werin Geltaidd
Offerynnau pres yn cynnwys pBuzz
Cerddoriaeth Trefol, yn cynnwys bît bocs, rap, troellwr, hip-hop, dawnsio a ysgrifennu caneuon.
Allweddellau

www.gwentmusic.co.uk

Ystafelloedd Dosbarth Creadigol

Mae gan Gerdd Gwent y brwdfrydedd, yr arbenigedd a'r adnoddau gofynnol i gydlynu a darparu addysg gerddorol trwy ein harlwy ystafelloedd dosbarth creadigol.

Gallwn ymgorffori dosbarthiadau creadigol offerynnol, electronig neu leisiol sy'n hygyrch i bob dysgwr yn eich ysgol. Bydd y rhain yn cynnig cyfle i brofi offerynnau ac yn ysbrydoli dysgwyr sy'n dymuno parhau â'u taith tuag at gyflawni eu dyheadau.

Bydd ysgolion yn elwa ar becynnau adnoddau a gweithgareddau i ysgogi ac ysbrydoli cyn ac wedi'r ymweliad. Caiff y rhain eu teilwra yn unol â gwaith datblygu cwricwlwm penodol a chalendr yr ysgol i ategu ac ychwanegu at weithgareddau sydd eisoes wedi'u cynllunio.

www.gwentmusic.co.uk

Hyfforddiant ar gyfer Unigolion a Grwpiau Bychan

Bydd y gwersi hyn yn cynnig cyfle i ddysgwyr ehangu eu gwybodaeth a datblygu sgiliau cerddorol â chymorth penodol ynghylch gwaith offerynnol, lleisiol neu gyfansoddi mewn grwpiau bychan, fel y gallant ddatblygu mewn modd sy'n briodol iddynt.

Bydd y profiadau cerddorol ysbrydolgar cychwynnol yn caniatáu i ddysgwyr ganfod ac uniaethu ag offeryn penodol neu arddull benodol o ran cerddoriaeth leisiol. Yna, gall gwersi arwain at gyfleoedd i berfformio a rhannu'r hyn a ddysgir a datblygu cymwyseddau digidol.

Gellir trefnu defnydd am ddim o ddetholiad o offerynnau cerdd trwy gyfrwng cynllun benthyca, yn unol â'n telerau a'n hamodau.

Therapi Cerdd

Gallwn ddarparu sesiynau ar gyfer unigolion a grwpiau gan Therapyddion Cerdd sydd â chymwysterau llawn.

Sesiynau ar gyfer unigolion:

Mae bob sesiwn therapi cerdd yn unigryw. Mae ein therapyddion cerdd yn deall bod cerddoriaeth yn ysgogi teimladau ac yn gallu sbarduno ymatebion gwahanol. Ein nod yw ceisio gwella bywyd pob plentyn, gan ganolbwyntio ar y pethau y gallant eu gwneud a'u helpu i gyflawni eu potensial trwy gyfrwng cerddoriaeth.

Sesiynau ar gyfer grwpiau:

Dros gyfnod o chwe wythnos, bydd ein therapyddion cerdd yn cyflwyno amrywiaeth o weithgareddau cerddorol gan gynnwys gemau, gwaith byrfyfyr a chydweithredu, a datblygu sgiliau cymdeithasol, emosiynol a chyfathrebu. Byddwn yn gwahodd y plant i ddewis bod yn rhan o'r grŵp, gan rannu'r lle a'r gwaith creu cerddoriaeth.

www.gwentmusic.co.uk

Hyfforddiant ar gyfer Staff a Llesiant

Gallwn ddarparu sesiynau i feithrin gwaith tîm ar gyfer eich staff yn ymwneud ag unrhyw offeryn. Mae'n ffordd wych o gael cipolwg ar yr hyn y bydd y plant yn ei ddysgu a darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer eich staff.

Caiff y cyfan ei gynnal mewn amgylchedd difyr, diogel a hamddenol. Os byddwch yn ymrwymo i brosiect 10 wythnos ar gyfer eich dysgwyr, bydd hyn yn cynnwys perfformiad ar ddiwedd y prosiect.

Gall ein tîm fod ar gael i fynychu nosweithiau pontio ac ar adegau derbyn disgyblion mewn ysgolion cynradd.

www.gwentmusic.co.uk

Canolfannau Cerdd

Rydym yn cynnig canolfannau cerdd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau i bob disgyblaeth a gallu. Trowch at ein gwefan i weld manylion y cynnig diweddaraf: www.gwentmusic.co.uk.

Cyfeilyddion

Gallwn gynnig gwasanaeth cyfeilio i baratoi at arholiadau TGAU a Safon Uwch a pherfformiadau yn ogystal â gweithgareddau allgyrsiol ac arwain ensembles os bydd arnoch angen hynny. Gallwn hefyd gynnig gwasanaeth cyfeilyddion trwy law Cerdd Gwent ar gyfer arholiadau.

Gwasanaethau eraill sydd ar gael

Gallwn gynnig arddangosiadau a sŵau offerynnau i alluogi'r plant i roi cynnig arnynt.

Gellir cofrestru plant i sefyll arholiadau trwy law Cerdd Gwent, a gellir sicrhau hyd at 30 o bwyntiau UCAS ar gyfer graddau 6-8.

www.gwentmusic.co.uk

Porth Ysgolion Xperios

Yn ddiweddar, mae Gwasanaeth Cerdd Gwent wedi cychwyn defnyddio system newydd a wnaiff ganiatáu i ysgolion gael manylion am y gweithgareddau y bydd Cerdd Gwent yn eu cynnal yn yr ysgol.

I ddefnyddio'r system, e-bostiwch Gwent.music@newport.gov.uk i ofyn am gyfrif defnyddiwr. Byddwch yn cael e-bost yn gofyn i chi agor cyfrif 'Schooble', ac fe wnaiff hyn eich galluogi i gael mynediad at y Porth Ysgolion ar wefan Cerdd Gwent. Sylwer y bydd yn rhaid i'r Pennaeth agor cyfrif i lofnodi unrhyw Gytundebau Lefel Gwasanaeth rhwng yr ysgol â Cherdd Gwent. Gallwch hefyd ofyn am 'fynediad gweld yn unig' ar gyfer gweinyddwyr a/neu eich Penaethiaid Celfyddydau Mynegiannol.

Manylion Cysylltu

Mae'r llyfryn hwn yn cynnig rhagflas o'r hyn sydd ar gael, ond cofiwch gysylltu os hoffech ragor o wybodaeth.

Dyma'r manylion cysylltu ar gyfer eich ardal:

BLAENAU GWENT – Chris Fry chris.fry@newport.gov.uk 07581 014404

TORFAEN – Aly Jones alyson.jones@newport.gov.uk 07792 138623

CASNEWYDD – Chris Fry chris.fry@newport.gov.uk 07581 014404

SIR FYNWY – Aly Jones alyson.jones@newport.gov.uk 07792 138623

www.gwentmusic.co.uk

Prisiau

Dyma'r ffioedd a godir yn ystod 2022-23:

Gweithgaredd	Cost
Hyfforddiant ar gyfer Unigolion a Grwpiau Bychan:	
Fesul awr	£34.00
Fesul diwrnod (5 awr 30 munud)	£170.00
Prosiectau ar gyfer Dosbarthiadau Cyfan:	
Fesul awr	£36.50
Fesul diwrnod (5 awr 30 munud)	£182.50
Therapi Cerdd:	
Ysgolion – Fesul Awr	£40.00
Asiantaethau Eraill – Fesul Awr	£42.80

www.gwentmusic.co.uk

TORFAEN
COUNTY
BOROUGH
BWRDEISTREF
SIROL
TORFAEN
monmouthshire
sir fynwy
BEAN IT
PLAY IT
LIVE IT
CERDD
GWENT
MUSIC
Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council
NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD